**Cliciwch ar benawdau i ddod o hyd i'r canllawiau cyffredinol neu ganllawiau'r adran gydag enghraifft.**

**Fe welwch wybodaeth ategol yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllawiau.**

**Pan fyddwch yn dechrau asesu eich cynnig, trefnwch gyfarfod â Tim Greaves, Cydlynydd Cydraddoldeb, i gael arweiniad penodol. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau ato am wiriad terfynol ac er mwyn iddo allu ei chyhoeddi ar dudalennau gwe cydraddoldeb Bro Morgannwg.**

**Cysylltwch hefyd â Tim Greaves os oes angen y ffurflen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hon arnoch mewn fformat gwahanol.**

## 1. Beth ydych chi'n ei asesu?

Ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sa Richard Gwyn

a chynyddu capasiti'r ysgol o 813 lle i 1,050 lle.

Medi 2025

## 2. Pwy sy'n gyfrifol?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | Lisa Lewis | **Teitl y Swydd** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau |
| **Tîm** | Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | **Cyfarwyddiaeth** | Dysgu a Sgiliau |

## 3. Pryd mae'r asesiad yn cael ei gynnal?

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | 5 Medi 2023 |

## 4. Disgrifiwch y cynnig.

**Beth yw pwrpas y cynnig?**

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig mewn ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25%.

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac yn ymateb i'r galw. Mae ysgol newydd â 1,050 o leoedd ar y safle presennol wedi'i chynnwys fel rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion y Cyngor a ariennir gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Cynigir sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 lle i 1,050 o leoedd. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol â 60 o leoedd.

Cynigir y byddai Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn yn symud i'r adeilad newydd erbyn mis Medi 2025.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, bydd yr ysgol newydd wedi'i lleoli ar safle presennol yr ysgol. Bydd adeilad newydd yr ysgol yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol, gan ganiatáu i'r ysgol bresennol barhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd i sicrhau bod yr ysgol bresennol yn gallu gweithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu ac mae ganddo brofiad o wneud hynny ar nifer o safleoedd eraill.

Bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**Pam mae angen i chi ei roi ar waith?**

Sant Richard Gwyn yw'r unig ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg sydd heb dderbyn buddsoddiad eto fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae Sant Richard Gwyn wedi'i lleoli ar 5.2 hectar o dir ac mae'n cynnwys prif adeilad, adeiladau llai, ac adeiladau dros dro. Cafodd elfennau o'r ysgol eu categoreiddio fel rhai mewn cyflwr gwael yn dilyn adolygiad o'u cyflwr. Mae wynebau tarmac a charreg glai'r prif faes parcio a'r maes parcio ychwanegol mewn cyflwr gwael ac mae angen eu hail-wynebu. Mae'r llwybr mynediad i flaen y prif adeilad a'r llwybr i'r ardaloedd chwarae yn y cefn mewn cyflwr gwael ac mae angen eu hail-wynebu. Yn ogystal â chyflwr gwael yr adeilad, dylid ystyried y canlynol hefyd;

- Mae problem sylweddol gyda llifogydd ar y safle presennol oherwydd systemau draenio gwael. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i osod systemau draenio gwell er mwyn osgoi perygl llifogydd yn y dyfodol.

- Byddai adeilad newydd yr ysgol wedi'i leoli ar yr un safle gyda'r systemau draenio yn cael eu gwella cyn i'r gwaith adeiladu ddigwydd.

| |
|---|
| Mae ailddatblygu Sant Richard Gwyn, sy'n cynyddu nifer y lleoedd ysgol o 813 i 1,050, yn cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy nag ailwampio adeilad presennol yr ysgol. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad presennol, fel problemau gyda chyflwr, addasrwydd a llifogydd. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad cynaliadwy a modern o safon uchel fyddai'n gallu cynorthwyo cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.<br><br>Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau costau rheolaidd a bod yn garbon sero-net o ran ei weithrediad. Bydd yr adeilad newydd hefyd yn bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu).<br><br>Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylch neu bolisi derbyn Sant Richard Gwyn yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. |
| **A oes angen i ni neilltuo adnoddau sylweddol ar ei gyfer (fel arian neu amser staff)?**<br><br>Amcangyfrifir mai cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd yw £62 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £52.7 miliwn (85%) mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y prosiect hwn. Gallai gostyngiad pellach i gostau'r Cyngor godi os bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu 100% o'r costau carbon sero-net. |
| Byddai symud yr ysgol i lety mwy gyda niferoedd cynaliadwy yn;<br><br>• Sicrhau y gall yr ysgol ateb y galw yn y dyfodol am addysg seiliedig ar ffydd<br>• Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.<br>• Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.<br>• Creu adeilad ysgol yr 21ain Ganrif sy'n cwrdd â safonau adeiladu cenedlaethol ac yn lleihau costau rheolaidd ac ôl-troed carbon adeiladau addysg. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu i safon 'A' TPY (Tystysgrif Perfformiad Ynni).<br>• Datblygu ethos a diwylliant yr ysgol a'r plant, gan arwain at berthnasau rhyngbersonol effeithiol a hunan-barch uwch.<br>• Cynnig dull cyson o 11-16 mlwydd oed a fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.<br>• Sicrhau dilyniant mewn profiadau dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac yna i addysg ôl-16 oed.<br>• Byddai'r holl waith o gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau adnoddau yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad disgyblion blaenorol ac ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. |

- Helpu disgyblion i feithrin eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso eu gwybodaeth am bynciau yn fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.
- Darparu canolfan adnoddau arbennig (CAA) i hwyluso cymorth ychwanegol i ddisgyblion.
- Parhau â'r trefniadau o ran gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol.
- Darparu mwy o gyfleoedd i'r gymuned, drwy ddefnyddio cyfleusterau.
- Hyrwyddo defnydd effeithiol o'r Gymraeg a hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu dealltwriaeth ddiwylliannol a hanesyddol o Gymru.

**Ar bwy mae'r cynnig yn effeithio?**

Yr holl staff, disgyblion, rhieni disgyblion a llywodraethwyr ac Esgobaeth Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn ar y dyddiad y bwriedir iddynt symud i'r adeilad ysgol newydd gwell. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn symud ym mis Medi 2025.

**A fydd y cynnig yn effeithio ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithio?**

Byddai'r cynnig yn darparu 237 o leoedd uwchradd ychwanegol a 60 o leoedd mewn canolfan adnoddau arbenigol. Byddai hyn yn ymateb i gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ardal ac yn helpu gyda'r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y Barri.

**A fydd y cynnig yn effeithio ar sut yr ydych yn darparu gwasanaethau?**

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac yn ymateb i'r galw. Mae angen ateb y galw yn y dyfodol o'r datblygiadau tai newydd ym Mro Morgannwg ar gyfer y ddarpariaeth ffydd, yn gyffredinol.

Byddai'r holl staff a'r disgyblion yn symud i'r adeilad ysgol newydd a byddai'r corff llywodraethu'n parhau'r un fath. Fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Cyngor Bro Morgannwg, dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ymgymryd â saith symudiad / trawsnewidiad rhwng cyfleusterau addysgol presennol a newydd ar safleoedd presennol a newydd.

Ar gyfer gwaith adeiladu a wnaed ar safle a oedd yn bodoli eisoes, a darparwyd cynllunio i gynorthwyo ag addysgu dysgwyr drwy gydol y rhaglen ddatblygu, cafodd dyddiadau a digwyddiadau penodol eu bwydo i'r rhaglen adeiladu er mwyn lleihau'r effaith a'r aflonyddwch i ddysgwyr, yn enwedig o ran amseroedd arholiadau, digwyddiadau chwaraeon ac ati, cymaint â phosibl.

| |
|---|
| Yn achos Ysgol Gyfun Gatholig Sant Richard Gwyn, un o fanteision y cynnig yw y bydd yr ysgol bresennol yn parhau i fod yn gwbl weithredol heb lawer o darfu ar weithrediad yr adeilad presennol yn ystod y rhaglen adeiladu.<br><br>Yn ystod y rhaglen adeiladu, bydd dysgwyr a staff yn cael eu gwahodd i fynychu sesiynau ymgysylltu i drafod eu gofynion ar gyfer eu cynnwys yn y cyfleuster newydd a bydd y sesiynau ymgysylltu hyn hefyd yn cynnwys y map ffordd ar gyfer trosglwyddo ac agor y cyfleuster newydd. Bydd cyfleoedd i fynychu'r safle datblygu, pan fydd yn ddiogel i wneud hynny, a bydd dysgwyr a staff yn gallu gweld y gofodau newydd y byddant yn eu cael ar ôl i'r gwaith o ddatblygu'r ysgol gael ei gwblhau.<br><br>Bydd ein map ffordd i symud y cyfleuster presennol yn dechrau tua thri mis cyn trosglwyddo'r adeilad, dyma le darperir y canllawiau a'r cymorth i ddechrau didoli a phacio eu hadnodd presennol, bydd disgyblion yn cael gweld y gofodau'n rhithiol nes ei fod yn ddiogel iddynt eu gweld ar y safle, er mwyn caniatáu i bawb ymgyfarwyddo i leihau effaith yr adleoli a'r newid. |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisïau neu arferion eraill?**<br><br>Mae'r cynnig yn rhan o Raglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Bydd y gwaith o redeg yr ysgol yn parhau i gael ei hategu gan lawer o bolisïau a gweithdrefnau. Bydd rhaid i'r corff llywodraethu barhau i gydymffurfio â'r holl bolisïau, gan gynnwys polisïau'r Cyngor a Pholisïau Cydraddoldeb ysgolion. Bydd gan yr ysgol ran i'w chwarae yn y gwaith i fodloni'r amcanion cydraddoldeb y mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn gyfrifol amdanynt ac ategu'r perfformiad yr adroddwyd amdano yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol pan fo'n briodol. |
| **A allwch newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhellach ac yn meithrin perthnasoedd da?**<br><br>Bydd y cynnig yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer mannau dysgu ychwanegol i helpu i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu i sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg sy'n briodol i'w hanghenion.<br><br>Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r holl ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Ymgynghori ac mae dadansoddiad o'r nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb ynddo fynegi eu barn a safbwyntiau ar y cynigion presennol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'r grwpiau canlynol: |

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |
| Rhieni / Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyngor Tref y Barri |
| Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) Bro Morgannwg |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Cynghorwyr lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |

**Sut byddwch yn cyflawni'r newidiadau arfaethedig?**

Bydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Corff Llywodraethu ar 16 Tachwedd 2023 a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Corff Llywodraethu, cyhoeddir yr hysbysiad Statudol a chaiff gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol eu gwahodd bryd hynny, bydd hyn yn mynd ymlaen o  1 Rhagfyr i 29 Rhagfyr 2023.

**Pwy fydd yn cyflwyno'r cynnig?**

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, bydd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn cael ei wneud i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer St Richard Gwyn. Bydd y Cyngor yn rheoli'r broses ar ran yr Esgobaeth, lle bydd y corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Sant Richard Gwyn yn chwarae rhan lawn yn natblygiad y cynlluniau, gan gynnwys lle bo'n briodol addasiadau i ddyluniad yr adeilad i sicrhau cyfle cyfartal. ar gyfer profiadau addysgu a dysgu. Bydd y Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwaith adeiladu.

Byddai'r adeilad hwn yn cael ei gyflwyno gyda phartneriaid allanol gan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (SCfL) o fewn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau fel rhan o Raglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn dilyn ei gais llwyddiannus am gyllid fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (SCfL). Rhaglen. Mae prosiectau yn destun ymgynghoriad statudol ac achos busnes trylwyr fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a Llywodraeth Cymru.

Mae’r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (SCfL) yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn ystadau addysgol ledled Cymru. Mae’n gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Cwblhawyd pob un o brosiectau Cyngor Bro Morgannwg a gyflawnwyd fel rhan o Fand A a Band B o’r Rhaglen GCaD ar amser ac o fewn y gyllideb.

**Sut byddwch chi’n gwybod a ydych chi wedi cyflawni diben y cynnig?**

Mae’r Ymgynghoriad yn amlinellu cynigion y Cyngor i:

• Cynyddu’r capasiti ar gyfer Addysg Uwchradd drwy ehangu St Richard Gwyn o 813 o leoedd i 1050 o leoedd ynghyd â 60 o leoedd ar gyfer yr SRB o fis Medi 2025.

• Trosglwyddo'r staff a'r disgyblion o'r adeilad presennol i adeilad newydd ar y safle presennol

Gall y Corff Llywodraethol benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Corff Llywodraethol a'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth unrhyw wrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd.

## 5. Pa dystiolaeth ydych yn ei defnyddio?

**Ymgysylltu (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**

Dilynodd y prosesau ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gan gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bu'r Cyngor yn ymgynghori ag ystod o ymgynghoriaethau statudol a amlinellir yn y Cod ac sy'n ofynnol ganddo.

Gweinyddodd y Cyngor yr ymatebion ar ran y Corff Llywodraethu yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafwyd 43 o ymatebion unigol rhwng 5 Medi a 17 Hydref 2023. O'r cyfanswm o 43 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 43 o blaid y cynnig. Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hefyd.

Nodwyd na roddodd pob un o’r ymgyngoreion ateb i bob cwestiwn a bod rhai ffurflenni'n anghyflawn. Yn yr achosion hyn, rydym wedi derbyn yr ymatebion i’r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb. Mae nodweddion gwarchodedig yr ymatebwyr, pan eu bod wedi’u nodi, wedi’u cynnwys isod.

Nid yw adborth yn deillio o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oherwydd nodwyd yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond yr ymatebion a gofnodwyd ar ffurflen ymatebion swyddogol yr ymgynghoriad y byddai'r Cyngor yn eu derbyn. Rhoddwyd gwybod am hyn i’r

ymgyngoreion yn y sesiynau galw heibio. Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o ymgyngoreion statudol a amlinellir ac sy'n ofynnol gan y Cod.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gam ffurfiannol a oedd yn galluogi'r gwaith o sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae amserlenni'r ymgynghoriad yn cydymffurfio a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roedd yn rhoi 7 wythnos i ymgyngoreion ystyried a pharatoi ymateb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adborth ac ymatebion a ddaeth i law drwy'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cynnig. Roedd hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â disgyblion yr ysgolion bwydo ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau galw heibio gan wahodd rhanddeiliaid i'w mynychu fel rhan o'r broses.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau ffurflen Monitro Cydraddoldeb a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol i bob cynnig:

| |
|---|
| 1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a chynyddu ei chapasiti o 813 o leoedd i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025? |

Roedd ymgyngoreion yn gallu ymateb Ydw, Nac ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall i bob cynnig.
Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ddau gynnig pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Cynigiwyd y cynnig i ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

| |
|---|
| Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod. |

| |
|---|
| Unrhyw sylwadau eraill? |

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn Sant Richard Gwyn. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd llywodraethwyr, rhieni a sesiynau galw heibio cymunedol mewn digwyddiadau a sesiynau ymgysylltu â disgyblion.  Amlygwyd y sail resymegol y tu ôl i'r cynigion ym mhob digwyddiad a rhoddwyd esboniad o'r broses statudol a'r amserlenni dan sylw gyda chyfle i drafod yn agored ymhlith pawb a oedd yn bresennol. Roedd y sesiynau hyn yn agored i'r holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D yr adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad.

| |
|---|
| **Data ac ymchwil cenedlaethol**<br><br>Mae llawer o wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r boblogaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r wybodaeth hon ar gael o'r ffynonellau canlynol:<br><br>Rhagamcanion aelwydydd fesul awdurdod lleol<br>https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/amcanestyniadau-aelwydydd-ar-gyfer-awdurdodau-lleol-sail-2014_0.pdf<br><br>Tueddiadau poblogaeth y dyfodol<br>https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/tueddiadaur-dyfodol-llywodraeth-cymru-2017-poblogaeth?from_search=0<br><br>Rhagamcanion poblogaeth 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (rhes 392 cod W06000014)<br>https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls<br><br>Data nodweddion gwarchodedig o Gyfrifiad 2021<br>Nodweddion gwarchodedig yn ôl statws anabledd Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)<br><br>Bydd cynnig y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. |
| **Data ac ymchwil lleol**<br><br>Mae'r Cyngor yn defnyddio data demograffig, ysgol a disgyblion cyfredol i lywio'r cynnig. Defnyddiwyd adolygiad data statudol i lywio'r broses.<br><br>Bu datblygiad lleol o Lannau'r Barri sydd i'r de-orllewin o ganol tref y Barri ac sydd wedi'i leoli rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd cyfanswm o tua 1,700 o gartrefi yn cael eu hadeiladu erbyn 2024. Rhagwelir y bydd Datblygiad Glannau'r Barri yn creu tua 170 o ddisgyblion meithrin, 473 o ddisgyblion cynradd a 422 o ddisgyblion uwchradd. Mae nifer amcangyfrifedig y disgyblion yn sgil datblygiad yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae cyfanswm o 1559 o unedau wedi'u hadeiladu a'u meddiannu hyd yma gyda phlant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal. O fewn dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae 488 o unedau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Cosmeston ym Mhenarth a 403 uned yn ardal Sili sy'n gwasanaethu Sant Richard Gwyn i rieni sy'n dymuno cael addysg ffydd. Rhagwelir y bydd yr 891 uned yn arwain at tua 89 o ddisgyblion meithrin, 248 o ddisgyblion cynradd a 221 oed uwchradd.<br><br>Nid oes newid i'r dalgylch yn rhan o'r yr ymgynghoriad hwn. |

## 6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

| |
|---|
| **A yw'n dangos beth fydd yr effaith (cadarnhaol a negyddol)?**<br><br>Mae'r cynnig hwn yn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb a meithrin perthynas dda fel rhan hanfodol o'r broses gwneud penderfyniadau. Fe fydd effaith y cynnig yn gadarnhaol o ran rheoli'r galw am lefydd mewn ysgolion ym Mro Morgannwg.<br><br>Bydd y cynnig hefyd yn gadarnhaol i'r disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn gan y bydd ganddynt amgylchedd llawer mwy addas a modern, fydd yn caniatáu iddynt ffynnu wrth ddysgu.<br><br>Mae gan y cynnig y potensial i darfu ar addysgu staff a dysgu disgyblion tra bod yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu. Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod mesurau ar waith i liniaru'r tarfu gymaint â phosibl.<br><br>Mae'r Cyngor wedi darparu sawl adeilad ysgol newydd dros y pedair blynedd diwethaf fel rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Cyngor Bro Morgannwg, ac wedi cadw hen adeiladau'r ysgolion hynny ar agor wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Lle bu gwaith adeiladu ar hen safle, rhoddwyd cynlluniau ar waith i gynorthwyo gyda dysgu yn ystod y rhaglen ddatblygu. Cafodd dyddiadau a digwyddiadau penodol eu nodi'n rhan o'r rhaglen adeiladu i leihau'r effaith a'r tarfu ar ddisgyblion a staff, yn enwedig o gwmpas arholiadau a digwyddiadau chwaraeon er enghraifft, cymaint â phosibl. |
| **Beth yw'r bylchau?**<br><br>Nid yw nodweddion gwarchodedig trigolion newydd y datblygiadau newydd arfaethedig yn hysbys ar y cam hwn. Cyfyngedig yw'r wybodaeth sydd gan y Gyfarwyddiaeth am nodweddion gwarchodedig staff a'r corff llywodraethu, ond mae'r cynnig wedi'i ddylunio i gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig fydd yn defnyddio'r adeilad newydd. Gall y data hwn hefyd fod yn fodd i adnabod unigolion a gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymgynghoriad rhoddwyd sawl cyfle drwy amryw ddulliau cyfrinachol i staff a llywodraethwyr fynegi pryderon am eu hamgylchiadau personol yn ogystal ag unrhyw bryderon ehangach. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad nac ar ôl hynny y credid y caent effaith andwyol ar nodweddion gwarchodedig staff neu lywodraethwyr. O ganlyniad, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn. Byddai'r Corff Llywodraethu yn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i sicrhau nad yw'r cynnig hwn yn effeithio'n andwyol ar yr holl staff oherwydd eu nodwedd warchodedig. |
| **Beth a wnewch ynghylch hyn?** |

| |
|---|
| Byddai ystyriaeth o nodweddion gwarchodedig y disgyblion, staff a'r corff llywodraethu yn cael ei hadlewyrchu yn natblygiad yr adeilad newydd e.e. drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch a thai bach niwtral o ran y rhywiau.<br><br>Nid oes modd gwybod pa nodweddion gwarchodedig fydd gan y rhai fydd yn yr ysgol yn y dyfodol ond byddai'r adeilad newydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n dod i'r adeilad.<br><br>Rhoddir gwybodaeth i'r ysgol gan rieni a gweithwyr proffesiynol wrth i'r plentyn gofrestru yn yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i sicrhau y gall fodloni eu hanghenion. |
| **Pa ddata monitro fyddwch yn ei gasglu?**<br><br>Cesglir data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (CYBLD) bob blwyddyn a nodir nodweddion gwarchodedig drwy'r broses hon. |
| **Pa mor aml y byddwch yn dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?**<br><br>Caiff y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ei gwblhau bob blwyddyn. Mae'r Cyngor a'r ysgol yn defnyddio'r data i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn. |
| **Ble byddwch yn cyhoeddi data monitro ac adroddiadau?**<br><br>Cyhoeddir y Cyfrifiad Ysgolion gan Lywodraeth Cymru ar wefan StatsCymru ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.<br><br>Caiff safonau ysgol eu monitro'n barhaus ym mhob grŵp blwyddyn gan y Corff Llywodraethu, yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De a thrwy Estyn.<br><br>Caiff safonau mewn ysgolion eu monitro'n flynyddol gan y Consortiwm a'u hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol. Bydd safonau ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â'r plant a nodwyd fel rhai gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy hefyd yn rhan o'r Adroddiad Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Blynyddol a gynhelir gan Gonsortiwm Canolbarth y De mewn partneriaeth â'r ysgol. |

## 7. Effaith

### A oes effaith?

Byddai effaith gadarnhaol ar bobl â'r nodweddion gwarchodedig o ran oedran, anabledd ac ailbennu rhywedd/hunaniaeth. Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y

rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol.  Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd.
Cydnabyddir bod dyluniad presennol yr adeilad yn effeithio ar rai disgyblion ag anableddau sydd bob amser angen oedolyn gyda nhw i agor drysau, a bod hyn yn effeithio ar eu hannibyniaeth.
Nid yw’r safle presennol yn cydymffurfio’n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd cyfyngiadau’r safle.

Cydnabyddir hefyd bod diffyg lle yn yr ysgol bresennol sy'n effeithio ar ddisgyblion sydd angen cefnogaeth emosiynol. Mae defnyddwyr yn cydnabod y byddai toiledau neillryw gyda chyfleusterau hygyrch a newid hefyd yn flaenoriaeth yn y lleoliad newydd.

Bydd angen i'r ysgol weithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i ganfod y ffordd orau o ddefnyddio'r gofod hwn gan ystyried anghenion yr ysgol a datblygu model addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a disgyblion sydd angen cefnogaeth emosiynol.
Byddai gweithredu’r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch a lleoliad addas â chyfleusterau sy’n niwtral o ran y rhywiau.

Amlinellir yr effeithiau cadarnhaol isod yn yr adran berthnasol.

## Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hyn?   Rhowch dystiolaeth.


Asesir tystiolaeth drwy broses ymgynghori a thrwy ddata ysgolion a disgyblion.

## Os yw'n debygol y bydd effaith, beth ydyw?

**Oedran**

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhaliwyd yn Ionawr 2023 roedd 833 o blant ar y gofrestr rhwng 11 a 16 oed.

Ymatebodd 43 o bobl i'r ymgynghoriad. Cwblhawyd y 43 drwy'r ffurflen ar-lein.  Mae data sy’n gysylltiedig ag oedran ar gael drwy’r ffurflenni a gyflwynir ar-lein yn unig, a hynny gan y rhai a ddewisodd ddarparu'r manylion. Darparodd 41 o ymatebwyr y wybodaeth hon, a dewisodd 2 beidio â chynnwys y wybodaeth.




Byddai'r cynnig hwn yn datblygu dilyniant a pharhad yn addysg disgyblion rhwng 11 a 16 oed. Byddai'r ysgol yn gallu rhoi digon o leoedd i ddisgyblion oedran Ysgol Uwchradd na fyddent ar gael heb adeilad ysgol newydd.

Gan y byddai'r ysgol o faint digonol i ddarparu'r lleoedd gofynnol ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd o fewn yr ardal. Byddai'r cynnig yn darparu effaith **gadarnhaol** i blant yn yr ystod oedran hon. Fodd bynnag, nodir yn adran 149, o ran oedran, nad yw'n berthnasol i arfer swyddogaeth o ran darparu addysg i ddisgyblion mewn ysgolion (gweler paragraff 1 Atodlen 18 i Ddeddf 2010).

**Anabledd**

Mae'r data a gedwir ar ddisgyblion yn cael ei nodweddu gan Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae gan 15.25% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn AAA. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion ag anabledd ond hefyd disgyblion heb anabledd. Mae graddau'r angen yn amrywio ar draws ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys:

| |
|---|
| Grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
| ASD (Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig) |
| AYECH (Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol) |
| DYSL (Dyslecsia) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cyffredinol) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cymedrol) |
| ALIIC (Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) |

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r disgyblion a nodwyd yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn sydd angen cymorth ychwanegol.

| Cymorth | Nifer y disgyblion | Canran |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu gan yr Ysgol | 90 | 10.80% |
| Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 11 | 1.32% |
| Datganiad AAA | 0 | 0.00% |
| CDU a gynhelir gan yr ysgol | 24 | 2.88% |
| CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 2 | 0.24% |
| DIM (dim AAA) | 706 | 84.75% |
| **Cyfanswm Nifer y Disgyblion** | **833** | |

Ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod ei weithgareddau bob dydd wedi'u cyfyngu oherwydd cyflwr corfforol neu feddyliol. Ni ddywedodd unrhyw ymatebydd y câi'r adroddiad hwn effaith andwyol ar ei anabledd.

Câi'r adeilad ysgol newydd arfaethedig ei ddylunio mewn ffordd a fyddai'n galluogi staff i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
Byddai'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm mwy pwrpasol wedi'i dargedu mwy sy'n ymatebol i alluoedd disgyblion unigol ac sy'n sicrhau bod yr holl ddisgyblion sy'n gofyn am gymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm.

Gan na fyddai newid yn y staff, byddent yn ymwybodol iawn o anghenion unigol disgyblion. Byddai'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion yn gallu cysylltu â'r Cyngor yn ystod y cam dylunio i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu'n cefnogi'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai fydd yn cael budd o amgylchedd dysgu tawelach.

Mae nifer o elfennau dylunio a allai gael eu cynnwys i gefnogi disgyblion. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, ystafell fechan rhwng pâr o ystafelloedd dosbarth a allai gael ei defnyddio ar gyfer dysgu unigol / grŵp bach neu fel man tawel os oes angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth. Byddai defnyddio deunyddiau acwstig a chynlluniau lliw braf pwrpasol ac ati yn greadigol hefyd yn cael ei ystyried gan y tîm dylunio mewn ymgynghoriad llawn â staff, disgyblion a llywodraethwyr. Caiff yr ysgol ei dylunio fel bo mannau hyblyg y gellid eu haddasu gan ddefnyddio dodrefn at weithgareddau penodol, yn cynnwys ardaloedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Bydd yr adeilad wedi'i gynllunio i'r safonau acwstig presennol (BB93). Bydd hyn yn diffinio'r safon perfformiad acwstig o ran dyluniad yr ysgol. Caiff yr adeilad cyfan ei ddylunio i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol o ran mynediad anabl gyda pharcio a mynediad i adeilad yr ysgol yn ogystal ag asesu ym mhob rhan o'r ysgol. Bydd golau naturiol ac awyru'n nodwedd allweddol yn yr amgylchedd dysgu newydd.

Mae'r data hwn yn cael ei gasglu lle y bo'n briodol wrth i'r disgyblion gael eu derbyn, ac mae'r Cyngor ac ysgolion yn ei ddefnyddio i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i symud at adeilad ysgol newydd, a byddai staff yn dal i gael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a atgyfeirir at Lywodraeth Cymru a'r Cyngor er mwyn cefnogi staff yn yr ysgol a chaiff pawb sy'n cael mynediad i'r adeilad fudd o'i natur hygyrch.

Bydd y cynnig felly'n cael effaith **gadarnhaol** ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol, sydd wedi'u nodi yn y grŵp gwarchodedig hwn, gan y bydd ganddynt fynediad i adeilad ysgol cwbl hygyrch sydd wedi'u cynllunio i ystyried anghenion unigol.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Nid yw ailbennu rhywedd yn cael ei gofnodi'n gyson ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, fodd bynnag mae disgyblion unigol sy'n dewis byw'n wahanol i'w rhywedd ar enedigaeth yn cael eu cefnogi o fewn Ysgolion Uwchradd. Byddai'r holl ddisgyblion yn dal i gael addysg o safon uchel yn yr ysgol newydd. Byddai gan yr adeilad newydd gyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl ystyried newid ysgolion oherwydd ailbennu rhywedd.

Mae gan ddisgyblion a staff yr hawl i gael mynediad i'r tŷ bach sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd. Byddai unrhyw ddisgybl neu aelod o staff sydd ag angen neu awydd mwy o breifatrwydd, waeth beth yw'r rheswm sylfaenol, fynediad i dŷ bach unigol, ond ni fydd yn ofynnol i unrhyw ddisgybl neu aelod o staff ddefnyddio tŷ bach o'r fath. Byddai adeilad newydd yn rhoddi tai bach unigol y gall unrhyw un eu defnyddio er y byddai cyfleusterau ar wahân ar gael i oedolion a phlant.

Byddai'r defnydd o ystafelloedd newid gan ddisgyblion a staff Traws yn cael ei asesu fesul achos ar y cyd a'r unigolyn dan sylw. Byddai'r ysgol yn sicrhau'r lefel uchaf o integreiddio cymdeithasol ac yn hybu cyfle cyfartal i gyfrannu mewn dosbarthiadau addysg gorfforol a chwaraeon, gan sicrhau diogelwch a chyfforddusrwydd a gwaredu unrhyw effaith andwyol ar yr unigolyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai gan ddisgyblion neu staff Traws fynediad i fan newid sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd.

Byddai symud Ysgol Sant Richard Gwyn i ysgol newydd felly'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion gwarchodedig dan y ddyletswydd ailbennu rhywedd. Byddai pob disgybl yn dal i gael addysg o safon uchel fel rhan o ysgol 11 i 16 oed.
Byddai staff yn dal i gael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddai staff hefyd yn cael mynediad at gyfleusterau gwell sy'n niwtral o ran y rhywiau ac yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol. Bydd pobl anneuaidd, gan gynnwys staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned sy'n manteisio ar y cyfleusterau yn cael budd o'r addasiadau niwtral o ran y rhywiau i'r ysgol a nodwyd uchod.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r adroddiad hwn effaith andwyol ar ei hunaniaeth rhywedd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod un ymatebydd yn poeni bod angen toiledau addas ar ferched ar gyfer preifatrwydd. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol câi'r cynnig hwn effaith **gadarnhaol** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu'n unig)**

Noda'r ffurflen monitro cydraddoldeb y canlynol. O'r 43 ymateb, dewisodd 40 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn.

| Beth yw eich statws priodasol? | |
|---|---|
| Priod ac yn byw gyda gŵr/gwraig | 22 (55%) |
| Partneriaeth Sifil | 13 (32.5%) |
| Gwell peidio â dweud | 3 (7.5%) |
| Wedi ysgaru | 2 (3.30%) |

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Ni chedwir y wybodaeth hon ar lefel y Gyfarwyddiaeth am staff a llywodraethwyr ond dylai'r cynnig gael effaith niwtral ar y sawl â nodweddion gwarchodedig sy'n mynd i'r adeilad newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr Ysgol yn is nag oedran priodi cyfreithiol. Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i symud i adeilad ysgol newydd, a châi'r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ystyrir na fydd effaith negyddol ar ddisgyblion yn y grŵp gwarchodedig hwn. Ni fyddai'r cynnig yn newid y ddarpariaeth addysg ar gyfer unrhyw ddisgybl o fewn y grŵp gwarchodedig hwn.

Byddai staff sydd ar hyn o bryd ar absenoldeb mamolaeth neu sy'n feichiog ar yr adeg symud arfaethedig yn cael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith, ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, a byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Hil**

Prif ethnigrwydd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yw Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon gyda 75.63% o blant yn y categori hwn. Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd (89.97% Prydeinig Gwyn) poblogaeth Ysgolion Uwchradd ehangach y Fro.  Mae'r 25% o blant sy'n weddill o fewn grwpiau ethnig eraill gan gynnwys Gwyn/Asiaidd/Du Caribïaidd/Indiaidd.

Gan mai symud i adeilad ysgol newydd y bydd y disgyblion yn ei wneud, mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn newid proffil ethnig yr ysgol.

Byddai'r holl staff, disgyblion a llywodraethwyr yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o

ganlyniad i'r cynnig hwn a nifer fechan y disgyblion yn y categori hwn, a châi'r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Crefydd a chred**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni fyddai parch at bob cred grefyddol ac anghrefyddol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Ni fyddai'r agwedd hon ar y cwricwlwm parthed crefydd a chred yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, felly byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **gadarnhaol** ar y grŵp gwarchodedig hwn oherwydd bydd yr ysgol newydd yn darparu lle ychwanegol mewn ysgol ffydd.

**Rhyw**

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 49.9% o ddisgyblion sy'n ferched ar y gofrestr a 50.1% o ddisgyblion sy'n fechgyn. Dyma'r un ganran â phoblogaeth disgyblion uwchradd ehangach y Fro felly ni fyddai unrhyw effaith negyddol ganfyddedig. (49.5% benywaidd a 50.5% gwrywaidd)

Poblogaeth y staff yw 73.6% benywaidd a 26.4% gwrywaidd, o'i gymharu â phroffil ehangach y Fro o 68.6% benywaidd a 31.4% gwrywaidd ymhlith staff Ysgolion Uwchradd.

Câi plant o'r ddau ryw eu trin a'u haddysgu'n gydradd yn yr ysgol yn ei safle newydd. Ni fyddai unrhyw wahanol ddulliau o addysg neu gwricwla ar gyfer y naill ryw na'r llall. Byddai'r ysgol yn ceisio lleihau – i'r graddau y bo hynny'n bosibl – arwahanu disgyblion a myfyrwyr yn ôl Rhywedd. Byddai disgyblion yn dal i gael eu cefnogi i alluogi mynediad cydradd i Addysg Gorfforol a phan fo gwersi ar wahân yn ôl rhyw/rhywedd, caent eu galluogi i gyfrannu yn y gweithgaredd sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd petaent yn gofyn hyn. Ni fyddai'r agwedd ar reoli'r cwricwlwm yn ymwneud ag unrhyw flwch cyrhaeddiad seiliedig ar ryw a nodir yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

O'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yn llawn neu'n rhannol cwblhawyd 83% (34) gan fenywod a chwblhawyd 17% (7) gan ddynion.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith, ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, a byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o’r cwricwlwm cenedlaethol. Noda egwyddorion yr arolwg ysgol a ddisgrifir yn y ‘Fframwaith Arolygu Ysgolion’

Mae Llyfryn Arolygu Ysgolion Estyn hefyd yn nodi sut y bydd arolwg yn gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion unigol yn cael budd o’r ysgol ac yn dweud y gallai fod yn berthnasol rhoi sylw i’r rhai â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys felly disgyblion trawsryweddol. O dan ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bydd Estyn yn chwilio am dystiolaeth pan fo disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a pharch at amrywiaeth o ran e.e. rhywedd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried mathau, cyfraddau a phatrymau bwlio ac effeithiolrwydd gweithredoedd yr ysgol i atal a mynd i’r afael â phob ffurf ar fwlio ac aflonyddu – gan gynnwys seiber-fwlio a bwlio ar sail rhagfarn ar anghenion addysgol, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hil, crefydd a chred, ailbennu rhywedd neu anabledd.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Noda’r ffurflen monitro Cydraddoldeb y canlynol gan ymatebwyr.

**Pa un neu rai o’r opsiynau hyn sy’n disgrifio orau’r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi’ch hun?**

| | | |
|---|---|---|
| Heterorywiol / syth | 87.8% | 36 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 0 | 0 |
| Deurywiol | 2.44% | 1 |
| Mae’n well gennyf beidio â dweud | 9.76% | 4 |
| Arall<br>Cyfanswm yr ymatebion | 100% | 41 |

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith, ni fyddai hynny’n newid o ganlyniad i’r cynnig hwn, a byddai’r cynnig hwn yn cael effaith niwtral ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Y Gymraeg**

Mae Rhaglen Buddsoddi Mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n ceisio sicrhau y gellir bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr hirdymor. Yn unol â strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chyfrannu at ei tharged uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nid yw Sant Richard Gwyn yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ond mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnig cyfleoedd chwaraeon, addysgol a

diwylliannol gwerth chweil i ddisgyblion. Mae’r ysgol yn hyrwyddo effaith gadarnhaol ar safonau a gyflawnir ac agweddau tuag at y Gymraeg.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, byddai’r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn am y byddai'n darparu adeilad mwy modern gyda chyfleoedd i wella addysg cyfrwng Cymraeg.

**Hawliau Dynol**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen UNICEF, A Human Rights-Based Approach to Education For All, fel rhan o’r gwaith o lunio’r ymgynghoriad hwn. Cynghora’r ddogfen i Bennod 2 gyflwyno fframwaith cysyniadol i’r dull seiliedig ar hawliau at addysg sy’n ymgorffori tri dimensiwn rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol.
Hawlia nad oes modd i hawliau dynol sy’n gysylltiedig ag addysg gael eu gwireddu onid yw a nes bod y tri hyn wedi’u cyflawni:

• Yr hawl i gael mynediad at addysg - hawl pob plentyn ar addysg ar sail cyfle cyfartal a heb wahaniaethu ar unrhyw sail. I gyflawni’r nod hwn, rhaid i addysg fod ar gael ac yn gynhwysol a chyraeddadwy i bob plentyn.

• Yr hawl ar addysg o ansawdd – hawl pob plentyn ar addysg o safon sy’n ei alluogi i gyflawni ei botensial, gwireddu cyfleodd cyflogi a datblygu sgiliau bywyd. I gyflawni’r nod hwn, mae angen i addysg fod o gylch y plentyn, yn berthnasol a chofleidio cwricwlwm eang, a chael adnoddau priodol a chael ei monitro’n briodol.

• Yr hawl i gael parch yn yr amgylchedd dysgu – hawl pob plentyn i’w urddas annatod a chael ei hawliau dynol cyffredinol wedi’u parchu o fewn y system addysg. I gyflawni’r nod hwn, rhaid i addysg gael ei chyflwyno mewn ffordd sy’n gyson â hawliau dynol gan gynnwys parchu pob plentyn, cyfleoedd i gyfranogi’n ystyrlon, rhyddid rhag pob ffurf ar drais, a pharch at iaith, diwylliant a chrefydd.

Cyflwynwyd y cynnig hwn i fynd i’r afael â’r hawl i gael mynediad at addysg, i gael addysg o safon a chael yr hawl i ennyn parch o fewn yr amgylchedd dysgu i bob un o ddisgyblion Bro Morgannwg.

Ni ragwelir y byddai unrhyw effeithiau niweidiol i staff am y byddent yn syml yn symud i adeilad newydd ar eu contractau presennol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol am y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Os bydd y cynnig yn dwyn ffrwyth, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer niferoedd ychwanegol y disgyblion o fis Medi 2025. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn llwyr gefnogi'r llywodraethwyr, y pennaeth a'r staff yn yr ysgol gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth. Mae gan yr ysgol fynediad at

bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor, gan gynnwys polisïau recriwtio. Mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir â'r holl weithwyr yn digwydd ar bob mater.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol câi'r cynnig hwn effaith **gadarnhaol** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

## Sut ydych yn gwybod hyn?

**Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Caiff data ei ddarparu a'i ddadansoddi trwy ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion a gesglir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data demograffig, ysgol a disgyblion cyfredol i lywio'r cynnig. Byddai'r staff hefyd yn parhau i gael eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi'r staff yn yr ysgol.

## Beth ellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?

**Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Bydd argaeledd yr ysgol, ei manteision a'r cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yng Nghanllaw'r Cyngor i Rieni ar Dderbyn i Ysgolion, i rieni eu hystyried wrth benderfynu pa ysgol yr hoffent i'w plant fynd iddi. Mae ystyried yr angen i symud cyfle cyfartal yn ei flaen yn cynnwys ystyried yr angen i ddileu neu leihau anfanteision y maent yn eu dioddef. Felly ystyrir yr angen i gymryd camau i fodloni anghenion pobl o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i bobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac i annog y rheiny sydd â nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Byddai'r camau sy'n ymwneud â bodloni anghenion pobl anabl yn cynnwys camau i ystyried anableddau'r person yn allweddol i ddylunio'r adeilad newydd. Mae ystyried 'magu perthynas dda' yn cynnwys ystyried yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth. Dyma agwedd bwysig ar gyflawni'r cwricwlwm ac ni fyddai'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Cydnabyddir y gallai cydymffurfio â'r ddyletswydd gynnwys trin rhai pobl yn well nag eraill, cyhyd ag y caniateir hynny gan y gyfraith gwahaniaethu.

**Oedran**

Am y byddai'r ysgol yn parhau i ddarparu digon o lefydd i blant oedran ysgol gynradd, byddai'r cynnig yn darparu effaith **gadarnhaol** ar blant. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol.

**Anabledd**

Cyfyngir safle Sant Richard Gwyn ar hyn o bryd ac mae'n rhy fach i ymestyn yr adeilad presennol i fodloni gofynion Bwletin Adeiladu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Nid yw'r safle yn gwbl hygyrch gan ei fod yn gyfyngedig ac nid yw'r adeiladau yn bodloni canllaw dylunio'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Byddai'r adeilad newydd hwn yn cael ei gynllunio i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bawb, ni waeth beth yw natur eu hanabledd. Felly byddai'r cynnig yn cael effaith **gadarnhaol** ar bobl sydd â'r nodwedd hon.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Byddai pob plentyn yn cael ei gefnogi i gael addysg o ansawdd uchel pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ni waeth beth yw eu hunaniaeth rhywedd. Bydd gan yr ysgol gyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl na staff ystyried newid ysgolion oherwydd ailbennu rhywedd.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Byddai'r cynnig felly yn cael effaith **gadarnhaol**.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Esgobaeth, y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Hil**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro

a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Crefydd a chred**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **bositif** ar y grŵp hwn gan y byddai'r adeilad ysgol newydd yn darparu lleoedd ychwanegol yn yr ysgol ffydd.

**Rhyw**

Byddai plant o'r ddau ryw yn parhau i gael eu trin a'u haddysgu'n gyfartal yn yr adeilad ysgol newydd. Ni fyddai unrhyw wahanol ddulliau o addysg neu gwricwla ar gyfer y naill ryw na'r llall. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Y Gymraeg**

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn am y byddai'n darparu adeilad mwy modern gyda chyfleoedd i wella addysg cyfrwng Cymraeg

**Hawliau Dynol**

Byddai'r cynnig hwn yn cael **effaith gadarnhaol**, mae wedi cael ei gyflwyno i fynd i'r afael â'r hawl i gael mynediad at addysg, yr hawl i gael addysg o safon a'r hawl i barch yn yr amgylchedd dysgu i bob un o ddisgyblion Bro Morgannwg.

## Beth gellir ei wneud i leihau'r risg o gael effaith negyddol?

**Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Nid yw nodweddion gwarchodedig unrhyw ddisgyblion yn y dyfodol yn hysbys ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai angen addasiad rhesymol ar gyfer unrhyw ddisgybl, ond anogir rhieni i drafod unrhyw anghenion gyda'r ysgol a'r Cyngor, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn ystod y cyfnod pontio.

Byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Sant Richard Gwyn ar ddyddiad symud i'r ysgol newydd sy'n byw dros 3 filltir o'r ysgol newydd yn gymwys ar gyfer trafnidiaeth ysgol am ddim.

Bydd gan bob disgybl sy'n byw o dan 2 filltir o'r ysgol, ond nad oes ganddynt lwybr cerdded diogel i'r ysgol (gan gynnwys y rhai o ardal Dinas Powys), hawl i gludiant ysgol am ddim.

Yr adran trafnidiaeth ysgol fyddai'n penderfynu ar union drefniadau trafnidiaeth ysgol.

## A oes angen triniaeth fwy ffafriol er mwyn cyflawni canlyniadau cyfartal? (Anabledd yn unig)

Nid yw'r cyfleusterau cyfredol yn gwbl hygyrch a byddai angen mynd i'r afael â hyn mewn modd cadarnhaol fel rhan o'r cynnig hwn. Caiff yr adeilad ei ddylunio i fod yn gwbl hygyrch. Hefyd, caiff ystafelloedd dosbarth bach ac ardaloedd seibiant tawel eu hystyried yn rhan o'r cynllun dylunio er mwyn sicrhau bod modd darparu ar gyfer plant sydd angen amgylchedd dysgu llai prysur a thawelach.

## A fydd yr effaith yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?

**Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

**Oedran - Cadarnhaol**
**Anabledd - Cadarnhaol**
**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd - Cadarnhaol**
**Priodas a phartneriaeth sifil - Niwtral**
**Beichiogrwydd a Mamolaeth - Niwtral**
**Hil - Niwtral**
**Crefydd a chred - cadarnhaol**
**Rhyw - Niwtral**
**Cyfeiriadedd rhywiol - Niwtral**

**Y Gymraeg – Niwtral**
**Hawliau dynol – Cadarnhaol**

I gloi, nid oes risg go iawn o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol gan fod y Cyngor yn dilyn nod dilys (sef, gwella capasiti ac effeithlonrwydd addysg) ac mae'r penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion i wneud newidiadau wedi eu rheoleiddio yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod hwn.

## 8. Monitro effaith barhaus

**Dyddiad y byddwch yn monitro'r cynnydd**

Mae data CYBLD yn flynyddol ac os caiff ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu, caiff cynllun project ar gyfer y cynnig hwn ei ddechrau. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y ddogfen hon. Defnyddir unrhyw newidiadau i ganlyniadau sydd o ganlyniad i'r dadansoddiad parhaus hwn, i ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw gamau lliniarol angenrheidiol.

**Mesurau y byddwch yn eu monitro**

Caiff data CYBLD ar gyfer pob disgybl ei ddadansoddi a'i fonitro yn ôl Oedran, Anabledd, Hil, Crefydd a chred a'r iaith Gymraeg. Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn monitro data gwasanaeth ac yn rhoi gwybodaeth yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol. Mae'r mesurau a nodir ar gyfer addysg disgyblion yn fater i'r corff llywodraethu yn ei Gynllun Gwella'r Ysgol.

**Dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a weithredwyd a'i effaith**

Mae'r corff llywodraethu'n gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant mewn ysgolion.

Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn gorff annibynnol ond mae'n derbyn ei arian gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol ym Mro Morgannwg.

| |
|---|
| Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).<br><br>Ym Medi 2017, cyflwynwyd Fframwaith Arolygu Cyffredin i Ysgolion gan Estyn i bob ysgol ledled Cymru. Cafodd Sant Richard Gwyn ei arolygu ddiwethaf ym mis Mai 2017.<br><br>O dan y fframwaith newydd, bydd yr arolygwyr yn rhoi trosolwg o berfformiad presennol yr ysgol ac argymhellion ar gyfer gwella. |

## 9. Camau gweithredu pellach o ganlyniad i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

| Canlyniadau Posibl | Nodwch ba un sy'n berthnasol |
|---|---|
| **Dim newid mawr** | ie |
| **Addasu'r polisi** | |
| **Parhau â'r polisi** | |
| **Atal a dileu'r polisi** | |

## 10. Canlyniadau a Chamau Gweithredu

| |
|---|
| **Camau gweithredu a argymhellir i'r uwch dîm rheoli** |
| **Canlyniad yn dilyn ystyriaeth ffurfiol o'r cynnig gan yr uwch dîm rheoli** |

## 11. Nodyn Pwysig

| |
|---|
| **Os ydych wedi nodi effeithiau, rhaid i chi roi manylion y rhain yn eich adroddiad Ca wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer eich cynnig.** |

## 12. Cyhoeddi

| |
|---|
| **Ble byddwch yn cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?**<br>Gwefan Bro Morgannwg<br><br>**Yn ogystal ag unrhyw fan yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhaid i chi anfon copi at Tim Greaves, Cydlynydd Cydraddoldeb, i'w gyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg.** |

## 13. Awdurdodiad

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan (enw)** | Lisa Lewis |
| **Teitl y Swydd (Uwch Reolwr)** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad Adolygu:** | I gael ei adolygu ar ôl y cyfnod gwrthwynebu statudol, os â’r cynnig yn ei flaen |